# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/ Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Medi 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 288(v5)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, penderfynodd y Llywydd bod Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Dywedodd y Llywydd hefyd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi cael eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Byddai'r cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyfyngiadau coronafeirws lleol ym Mwdeistref Caerffili a Rhondda Cynon Taf

(45 munud)

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

(5 munud)

**NDM7374** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â pharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac o dan Reol Sefydlog 10.5:

Yn penodi Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o 17 Hydref 2020 tan 15 Mawrth 2023.

Noder: Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Benodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2020.

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

## 7 Cynnig i sefydlu pwyllgor o dan Reol Sefydlog 16.3: Pwyllgor y Llywydd – TYNNWYD YN ÔL

(5 munud)

**NDM7375** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

yn sefydlu Pwyllgor y Llywydd i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 18B.2.

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Budd-daliadau yng Nghymru - opsiynau i'w cyflawni'n well

(60 munud)

**NDM7373** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Budd-daliadau yng Nghymru - opsiynau i'w cyflawni'n well', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2019.

Noder: Gosodwyd ymatebion Llywodraeth Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2019 a 9 Medi 2020.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Mesurau i Atal COVID-19

(60 munud)

**NDM7376** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymestyn y defnydd gorfodol o orchuddion wyneb i gynnwys meysydd awyr, siopau, archfarchnadoedd, canolfannau siopa, ysbytai a lleoliadau gofal iechyd eraill;

b) defnyddio cyfyngiadau coronafeirws lleol mewn ymateb i gynnydd sylweddol mewn cyfraddau heintio Covid-19 mewn modd cymesur er mwyn osgoi gosod cyfyngiadau symud llawn ar Gymru gyfan;

c) ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n dod i mewn i Gymru o dramor gael prawf Covid-19 wrth gyrraedd Maes Awyr Caerdydd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu is-bwynt (a).

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Dileu is-bwynt (c) a rhoi yn ei le:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effeithiolrwydd mesurau i gynnwys lledaeniad COVID-19 mewn perthynas â theithio rhyngwladol hyd yma ac i weithredu unrhyw wersi a ddysgwyd.'

**[Os derbynnir Gwelliant 2, bydd Gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]**

**Gwelliant 3** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu is-bwynt (c) a rhoi yn ei le 'profi pobl sy'n dychwelyd i Gymru o wledydd nad ydynt wedi'u heithrio sydd â chyfraddau uwch o COVID-19 na Chymru, yn unol â'r cyngor cyfredol gan y Grŵp Cyngor Technegol'.

Technical Advisory Group: statement on testing travellers returning to Wales from areas of high prevalence (Saesneg yn unig):

**Gwelliant 4** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau llety i alluogi teithwyr a'r rhai nad oes ganddynt y cyfleusterau i fod dan gwarantin ar eu pen eu hunain.

**Gwelliant 5** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud gorchuddion wyneb yn orfodol mewn ardaloedd cymunedol mewn lleoliadau addysg penodol.

**Gwelliant 6** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun COVID-19 newydd i Gymru i ddarparu dull cyfannol o ymdrin â'r pandemig yn ystod y cyfnod nesaf.

**Gwelliant 7** [Sian Gwenllian (Arfon)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ar frys â phroblemau yn y drefn brofi bresennol ac i weithio tuag at gyflwyno profion dyddiol torfol.

**Gwelliant 8** [Sian Gwenllian (Arfon)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r syniad o ddefnyddio 'cyfyngiadau symud clyfar' wrth ymateb i glystyrau lleol, gan ddefnyddio cyfyngiadau mewn ardaloedd mor lleol â phosibl.

## 10 Dadl Plaid Brexit - Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM7372** [Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)]

Cynnig bod y Senedd:

Yn croesawu Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

[Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig] (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu rhai rhannau o Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sy'n dychwelyd, yn briodol, bwerau pwysig o'r UE i'r DU.

**[Os derbynnir Gwelliant 1, bydd Gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol]**

**Gwelliant 2** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu bod Bil y Farchnad Fewnol, Llywodraeth y DU gyfystyr ag ymosodiad ar y setliad datganoli a fyddai, pe bai'n cael ei ddeddfu, yn tanseilio pwerau'r Senedd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl Cymru.

**[Os derbynnir Gwelliant 2, bydd Gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]**

**Gwelliant 3** Sian Gwenllian (Arfon)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd yn cytuno bod Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU yn ymosodiad uniongyrchol ar genedligrwydd a democratiaeth yng Nghymru.

**Gwelliant 4** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y rhannau hynny o Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sy'n cynnig datganoli pwerau ymhellach i'r Senedd a Llywodraeth Cymru oherwydd, ar sail tystiolaeth yr 20 mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru yn debygol o'u defnyddio i gynyddu rheoleiddio, cyfyngu ar ryddid a thanseilio cystadleurwydd economi Cymru.

**Gwelliant 5** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid dileu'r Senedd, fel rhan o gynllun ehangach i unioni canlyniadau anfoddhaol datganoli drwy, yn benodol, ddemocrateiddio'r GIG a chreu mwy o ymreolaeth leol mewn addysg, ac wrth gadw elfennau Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sy'n helpu i ddychwelyd pwerau, yn briodol, o'r UE i'r DU.

**Gwelliant 6** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu na ddylai'r pwerau a gaiff eu dychwelyd gan Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig gael eu datganoli i Gymru o ystyried sut y mae Llywodraeth

Cymru a'r Senedd wedi methu mewn perthynas â'r pwerau datganoledig presennol sydd ganddynt.

**Gwelliant 7** [Gareth Bennett (Canol De Cymru)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am refferendwm cyfrwymol ynghylch a ddylid cadw neu ddiddymu llywodraeth a senedd datganoledig Cymru, yn sgil amcanion arfaethedig Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

**Gwelliant 8** [Sian Gwenllian (Arfon)]

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio annibyniaeth er mwyn diogelu democratiaeth yng Nghymru yn sgil Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU.

## 11 Cyfnod pleidleisio

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7371** [David Melding (Canol De Cymru)]

Yr angen am gronfa diogelwch tân yng Nghymru i gynnig cymorth i lesddeiliaid.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Medi 2020.

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 09/09/2020 i'w hateb ar 16/09/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Sian Gwenllian** *Arfon*

1 OQ55521

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i ail-gyflwyno eryrod i Eryri?

**Hefin David** *Caerffili*

2 OQ55504

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag archfarchnadoedd mawr ynghylch effaith Covid-19 ar y sector bwyd yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

3 OQ55508

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cartrefi mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn cael offer addas i atal llifogydd?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

4 OQ55485

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau i atal llifogydd yng Ngorllewin Clwyd?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

5 OQ55480

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ffermio yng Nghymru am y deuddeg mis nesaf?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OQ55487

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector amaethyddol yn y canolbarth?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

7 OQ55515

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gywirdeb mapiau llifogydd Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

8 OQ55502

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu llwyddiant y rhaglen Grantiau Datblygu Gwledig?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

9 OQ55483

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i'r sector bwyd a ffermio yng Nghymru pe na bai Llywodraeth y DU yn gallu sicrhau cytundeb masnach yr UE?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

10 OQ55498

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad Llywodraeth Cymru o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ55481

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar amddiffyn y bodau tinwen?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

12 OQ55495

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi wledig wrth inni ailgodi'n gryfach yn dilyn Covid-19?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ55517

**(e)**

Pa strategaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chymhwyso i benderfyniadau cynllunio canol tref a dinas fel bod ei thargedau lleihau allyriadau carbon yn cael eu hystyried?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ55488

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith y Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys Cynllunio Gwlad a Thref?

**David Melding** *Canol De Cymru*

3 OQ55512

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae cyfyngiadau Covid-19 yn debygol o'i chael ar dargedau adeiladu tai fforddiadwy?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**4** OQ55496

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb llywodraeth leol yng ngoleuni Covid-19?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**5** OQ55489

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi aelwydydd ar incwm isel i wneud gwelliannau i'w heiddo?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**6** OQ55513

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod gan awdurdodau lleol y modd i orfodi cyfyngiadau symud lleol?

**Hefin David** *Caerffili*

**7** OQ55506

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i'w galwad am dystiolaeth ynghylch taliadau ystadau am ddatblygiadau tai?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**8** OQ55507

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoliadau sy'n ymwneud â thai amlfeddiannaeth yng Nghymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**9** OQ55479

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn grymuso cynghorau tref yn y gogledd-ddwyrain?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**10** OQ55490

**(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i drigolion Glanfa Fictoria yng Nghaerdydd, lle mae'r fflatiau wedi methu profion tân ar ôl Grenfell?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**11** OQ55518

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r awdurdod lleol yn sir Benfro ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**12** OQ55499

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trefniadau llywodraethu ar gyfer llywodraeth leol yn ystod y pandemig coronafeirws?